Estyn

*Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Eglwysbach**
**Eglwysbach**
**Bae Colwyn**
**Conwy**
**LL28 5UD**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 01/04/2014**

## Cyd-destun

Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys Yng Nghymru yw Ysgol Eglwysbach, sydd wedi ei lleoli ar gyrion pentref Eglwysbach ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal wledig gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Conwy.

Mae 70 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 11 o blant meithrin yn rhan amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae niferoedd yr ysgol wedi cynyddu yn flynyddol drosy chwe blynedd ddiwethaf sydd wedi golygu ail strwythuro staffio'r ysgol yn ddiweddar. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn pedwar dosbarth.

Mae ffigyrau Llywodraeth Cymru yn nodi bod 78% o holl ddisgyblion yr ysgol yn siarad Cymraeg gartref. Fodd bynnag, mae'r ysgol yn nodi mai tua 50% o'r disgyblion sydd yn siarad Cymraeg fel prif iaith yr aelwyd. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Nid oes disgyblion o gefndiroedd lleiafrifol ethnig ar hyn o bryd. Tua 4% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim , gyda'r ffigur hwn yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 22% o ddisgyblion anghenion addysgol ychwanegol, sydd yn debyg i'r ffigur cenedlaethol. Nid oes yr un disgybl ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Eglwysbach yn 2013-2014 yw £4,414. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Conwy yw £14,575 a'r lleiafswm yw £3,230. Mae Ysgol Eglwysbach yn safle 26 o'r 58 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor y gwanwyn 2008.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Medi 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod:

- disgyblion yn perfformio'n gyson dda ar y deilliant a'r lefel ddisgwyliedig;
- bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- llwyddiant yr ysgol i ddatblygu dwyieithrwydd y disgyblion;
- ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar lle mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- gan y pennaeth adnabyddiaeth dda o'r ysgol a gweledigaeth glir;
- y llywodraethwyr yn herio'r ysgol yn effeithiol gan roi ffocws penodol ar godi safonau;
- trefn hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod yn gywir agweddau penodol i'w datblygu; a
- bod cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys strategaethau addas ar gyfer gweithredu'r blaenoriaethau sydd ar waith yn barod.

## Argymhellion

A1 Gwella cyflawniadau disgyblion mwy abl a thalentog ar draws yr ysgol

A2 Codi safonau ysgrifennu estynedig mewn pynciau ar draws y cwricwlwm

A3 Sicrhau bod strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn cael eu gweithredu'n gyson ar draws yr ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ar fynediad i'r ysgol ac eithrio yn y Gymraeg, lle mae'r iaith yn newydd i bron hanner ohonynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd da iawn yn y Gymraeg ar lafar.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r oedolion yn effeithiol. Mae'r mwyafrif o ddisgyblion yn y blynyddoedd cynnar yn ynganu ac yn goslefu'n ddealladwy, gydag amrediad eang o eirfa a mesur da o gywirdeb wrth ei defnyddio. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen gadarn ac ystod eang o eirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu.

Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gofyn cwestiynau perthnasol ac yn ymateb i gyfraniadau disgyblion eraill yn synhwyrol, yn y ddwy iaith. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol, ac yn dangos gafael dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

Mae safon darllen Cymraeg y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau. Darllenant yn uchel gyda rhuglder, cywirdeb, pwyslais a mynegiant cynyddol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystod eang o destunau ac yn gallu ymateb yn ystyrlon i'r cynnwys. Maent yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhuglder ar draws y cwricwlwm a gallant ddewis a dethol rhannau penodol o lyfrau ac oddi ar y we at eu defnydd o fewn eu gwaith.

Mae safon ysgrifennu'r disgyblion ar draws y Cyfnod Sylfaen yn dda ac yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae cynnydd amlwg i'w weld yng ngwaith y disgyblion. Mae rhan fwyaf yn atalnodi'n gywir yn rheolaidd gyda'r disgyblion mwyaf galluog yn gwneud defnydd priodol o ddyfynodau, ebychnod a ffurfiau cryno'r ferf gan amrywio brawddegau.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n glir wrth gyflwyno gwybodaeth ffeithiol a chreadigol mewn amrywiaeth o destunau yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio cystrawennau brawddegol cywir, yn paragraffu mewn dilyniant i gyfleu ystyr ac yn cynnal a datblygu syniadau. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ymestynnol yn rheolaidd ar draws y cwricwlwm.

Mae rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'u medrau rhifedd yn dda mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen, mae bron pob disgybl yn gallu dosbarthu a threfnu yn gywir ac mae cynnydd priodol i'w weld o ran cyrhaeddiad y disgyblion mewn datblygiad rhif. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol o fewn yr ardaloedd dysgu

Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu defnyddio eu medrau yn llwyddiannus i ddatrys problemau real ac o fewn meysydd megis hanes a daearyddiaeth. Gwelwyd hyn ar ei orau mewn gwaith ar fywyd plentyn yn y pyllau glo yn cynnwys problemau yn ymwneud ag amseriad, gwaith ar ffracsiynau ac ar linell amser.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn ac anghysondeb yn y niferoedd hyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall. Hefyd, mae nifer arwyddocaol o hwyrddyfodiaid o ran y Gymraeg.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio di-dâl, perfformiodd yr ysgol yn y 25% uchaf mewn datblygiad ieithyddol yn y Saesneg a datblygiad mathemategol. Fodd bynnag, roedd yr ysgol yn y 25% isaf mewn datblygiad ieithyddol yn y Gymraeg, sy'n ostyngiad o'r 25% uchaf yn 2012. Yn 2012, roedd perfformiad yr ysgol ar gyfer pob maes dysgu yn y 25% uchaf. Fodd bynnag, nid oedd perfformiad yr ysgol ar ddeilliant 6 yn cymharu cystal, gyda'r ysgol wedi ei gosod yn y 50% is mewn datblygiad ieithyddol a mathemategol yn 2012 a gostwng i'r 25% isaf mewn datblygiad mathemategol yn 2013.

Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4, yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ond yn is mewn Cymraeg. O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio di-dâl, gwelwyd cynnydd cyson dros y pedair blynedd diwethaf. Mae'r ysgol wedi bod yn perfformio yn y 25% uchaf ers dwy flynedd ymhob pwnc craidd ac eithrio'r Gymraeg yn 2013, gyda gostyngiad i'r 50% is.

Anghyson yw'r canran sy'n cyflawni ar y lefel uwch (lefel 5) dros gyfnod o bedair blynedd ym mhob pwnc. Gwelwyd gostyngiad o'r 25% uchaf yn 2012 hyd at y 50% is mewn Cymraeg yn 2013. Hefyd, gwelwyd gostyngiad o'r 50% uwch i'r 50% is mewn Saesneg ac o'r 50% is i'r 25% isaf mewn gwyddoniaeth a mathemateg.

**Lles: Da**

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o'r angen i yfed dŵr. Cyfranogant yn rheolaidd mewn gweithgareddau cadw'n heini. Manteisia llawer o'r disgyblion ar y clybiau diwedd dydd.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Teimla'r disgyblion oll yn ddiogel yn yr ysgol, a gwyddant at

bwy i droi os oes ganddynt unrhyw bryder. Maent yn ymwybodol iawn o faterion lles, iechyd a diogelwch.

Mae'r disgyblion bron i gyd yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n mwynhau eu profiadau yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda tuag at faterion megis cynaliadwyedd a gwaith dyngarol. Gallant gydweithio'n effeithiol fel grwpiau. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith gan ddyfalbarhau ar eu tasgau am gyfnodau estynedig. Mae disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cychwyn gwneud penderfyniadau am gynnwys themâu trwy drafodaeth a chreu mapiau meddwl syml. Mae llawer ohonynt ar frig yr ysgol yn gallu penderfynu ar drywyddau gwaith eu hunain ac ar sut i wella eu gwaith. Maent hefyd yn rhedeg y siop ffrwythau yn annibynnol.

Mae presenoldeb yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Mae canran presenoldeb yr ysgol wedi ei rhoi ymysg y 25% uchaf o ysgolion tebyg mewn pedair allan o'r pum mlynedd diwethaf.

Gwna'r cyngor ysgol a'r cyngor eco gyfraniad arwyddocaol i weithgareddau'r ysgol. Trwy eu hymdrechion maent wedi dylanwadu ar weithgareddau megis y cynlluniau ar gyfer datblygu amgylchfyd yr ysgol i gynnig gofod dysgu tu allan sy'n ysgogol. Mae'r cyngor ysgol hefyd wedi cynllunio cystadleuaeth coginio yn efelychu rhaglen deledu 'Bakeoff'. Mae'r disgyblion yn falch o'u llwyddiant wrth godi arian at achosion da yng Nghymru a thramor.

Mae'r disgyblion yn awyddus iawn i gymryd rhan yn y gymdeithas leol trwy greu rhaglen ar gyfer arddangosfa gelf flynyddol a gynhelir yn yr ysgol. Maent hefyd yn cyfrannu i'r papur lleol. Cymerant ran yn yr eisteddfod leol a'r sioe flynyddol. Maent bron oll, ar draws yr ystod oedran, yn elwa o'r cyfleoedd hyn ac o ganlyniad yn meithrin hyder a'r ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion o fewn gwersi a thrwy ymweliadau allanol. Mae'r ymweliadau hyn â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion.

Mae'r cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol yn gynhwysfawr gyda llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth ynghyd â medrau meddwl yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn cael lle amlwg o fewn y cynllunio tymhorol. Mae'r staff yn paratoi gweithgareddau gwahaniaethol addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r disgyblion. Nid yw hyn bob amser yn diwallu anghenion y disgyblion mwyaf galluog, yn enwedig mewn ysgrifennu yn estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg, yn arbennig yn y blynyddoedd cynnar, yn gryfder. Enghraifft dda o hyn yw trefn yr ysgol o hyrwyddo darllen yn y fewn y cartref, sydd wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol. Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd amrywiol a chyfoethog trwy waith trawsgwricwlaidd diddorol, clybiau'r

ysgol a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol i ddysgu am eu hardal a diwylliant Cymru.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang wedi treiddio i gynlluniau cwricwlaidd yr ysgol. Mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer gweithredu mewn modd cynaliadwy gyda disgyblion yn chwarae rhan ganolog yn y trefniadau ailgylchu ac arbed ynni. Cynllunnir yn fwriadus ar gyfer ehangu gwybodaeth y disgyblion am wledydd a materion tramor.

### Addysgu: Da

Mae ansawdd yr addysgu yn gyson dda ar draws yr ysgol. Mae perthynas waith dda rhwng y staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth, ac mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn creu ethos gweithgar a chynhaliol. Lle mae'r dysgu ar ei orau, mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn llawn yn y dysgu ac yn deall yn union yr hyn a oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Mae gan yr athrawon wybodaeth drylwyr am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol ac mae ansawdd da strategaethau dysgu yn cyfrannu'n effeithiol at ddeilliannau'r disgyblion. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ganmoliaeth ac maent yn cymell y disgyblion i ymdrechu trwy gynnig cefnogaeth briodol tra bod y disgyblion ar dasgau.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle nad yw'r yr addysgu cystal, nid yw'r disgwyliadau bob amser yn ddigon heriol i'r plant mwyaf galluog.

Mae'r ysgol yn asesu cynnydd y disgyblion yn rheolaidd. Gwneir hyn yn effeithiol trwy nifer o brofion safonol a phecyn asesu masnachol i adnabod cryfderau, i flaen gynllunio ac i gynnig cymorth pellach i'r disgyblion sy'n tangyflawni.

Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod y meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn asesu gwaith ei gilydd ac yn nodi cryfderau a mannau gwelliant. Mae adborth ysgrifenedig gan athrawon yn briodol wedi'i seilio ar y meini prawf llwyddiant. Er bod defnydd o strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar waith yn y dosbarthiadau, nid oes cysondeb yn ansawdd y defnydd o'r rhain ar draws yr ysgol.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned ofalgar. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae cyfleoedd penodol o fewn y cwricwlwm i ddisgyblion ymarfer y corff yn rheolaidd.

Mae'r ysgol yn darparu'n dda ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae'r berthynas glos rhwng yr ysgol a'r eglwys trwy'r gwasanaethau yn yr ysgol ac yn yr eglwys yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol

disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch y disgyblion yn effeithiol, ac yn datblygu medrau myfyrio, holi a mynegi barn yn briodol drwy amseroedd trafod yn y dosbarthiadau.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned ac yn darparu cyfleoedd da i ddisgyblion gefnogi digwyddiadau diwylliannol a chymdeithasol lleol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd helaeth o arbenigedd asiantaethau fel yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, seicolegwyr a'r swyddog lles. Mae'r cydweithio hwn yn sicrhau cefnogaeth gynnar ac effeithiol iawn pan fo angen.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau da i gofnodi anghenion, cynnydd a chyrhaeddiad y disgyblion sydd ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn adnabod anawsterau dysgu'r disgyblion yn gynnar gan ddarparu cymorth effeithiol. Caiff cynnydd y disgyblion ei adolygu'n rheolaidd ac mae'r disgyblion ym mlynyddoedd uchaf yr ysgol yn cael eu cynnwys wrth osod ac adolygu eu targedau unigol. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plant.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol a chartrefol iawn yn yr ysgol lle caiff disgyblion, staff a rhieni eu parchu a'u croesawu. Mae'r polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith yn sicrhau cyfleoedd a hawliau cyfartal i bob disgybl ym mhob agwedd ar ddarpariaeth yr ysgol.

Caiff parch at amrywiaeth a chydraddoldeb hiliol ei hyrwyddo'n llwyddiannus drwy weithgareddau perthnasol yn ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang ac o fewn cyfnodau addoli dyddiol.

Er bod adeilad yr ysgol yn hen, mae'r ysgol wedi buddsoddi yn helaeth, gyda chydweithrediad y rhieni, i'w haddurno a'i haddasu i fod yn ddeniadol ac yn briodol ar gyfer y disgyblion. Mae'r arddangosfeydd mewnol yn creu awyrgylch lliwgar, symbylus ac amrywiol sy'n meithrin balchder y disgyblion yn eu gwaith.

Mae'r defnydd o'r adnoddau allanol yn cynnig ystod eang o brofiadau cyfoethog i'r disgyblion. Mae hyn yn elfen gref sy'n golygu bod y disgyblion yn elwa'n sylweddol o brofiadau awyr agored. Cyfranna hyn yn dda iawn at ddeilliannau a lles y disgyblion.

Mae safle'r ysgol yn ddiogel ac yn cael ei gynnal yn dda.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ac adnabyddiaeth dda o'r ysgol. Mae wedi llwyddo i rannu ei weledigaeth yn effeithiol gyda'r staff a'r llywodraethwyr. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn gweithredu yn unol â'u swydd ddisgrifiadau

cyfredol. Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn rhoi cyfle i drafod cynnydd a chadw golwg ar ymateb yr ysgol i gynlluniau datblygu'r ysgol yn dda.

Mae strategaethau penodol ar waith ar gyfer codi safonau yn yr ysgol, gydag ystod eang o bolisïau sy'n cael eu hadolygu yn rheolaidd ac yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae dadansoddiadau manwl o ddata perfformiad wedi arwain at nodi agweddau penodol y mae angen eu gwella ac wedi arwain at nodi blaenoriaethau priodol yn y cynllun datblygu.

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol o reoli perfformiad staff sy'n ystyried targedau penodol o fewn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn cyflawni ei rolau statudol yn effeithiol ac mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth dda am berfformiad cyfredol yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill. Un o gryfderau'r llywodraethwyr yw eu parodrwydd i herio'r ysgol a chynnig cyfeiriad strategol ar gyfer codi safonau. Maent yn ymweld â dosbarthiadau yn rheolaidd fel rhan o'r broses hunan arfarnu ac yn chwarae rôl weithredol mewn pennu blaenoriaethau datblygu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol drefn effeithiol o adnabod ei pherfformiad ei hun. Gwneir hyn drwy gasglu a dadansoddi ystod eang o dystiolaeth unionyrchol.

Mae prosesau hunan arfarnu'r ysgol yn cynnwys casglu barn rhieni a'r disgyblion trwy holiaduron. Dadansoddir y rhain a bwydo'r hyn sy'n berthnasol i'r hunan arfarniad. Mae'r trefniadau ar gyfer casglu tystiolaeth yn yr ysgol yn drylwyr ac yn cynnwys ymweliadau â dosbarthiadau, archwilio gwaith a dehongli data.

Mae'r adroddiadau monitro yn adnabod cryfderau'r disgyblion a chryfderau'r addysgu yn ogystal â nodi mannau gwelliant. Mae data perfformiad yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella. Mae effaith blaenoriaethau blaenorol yn cael ei mesur ac mae hyn yn arwain at bennu targedau newydd.

Mae adroddiad hunan arfarnu'r ysgol yn gynhwysfawr ac yn adlewyrchu'r mwyafrif o'r cryfderau a'r meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, mae tueddiad i'r adroddiad fod yn or-ddisgrifiadol ar brydiau.

Mae perthynas glir rhwng blaenoriaethau'r cynllun datblygu cyfredol a'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu seilio'n briodol ar arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r wybodaeth a ddaeth i'r amlwg drwy'r broses hunanarfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu costio, yr amserlen weithredu ynghyd â'r meini prawf llwyddiant wedi'u nodi'n briodol a'r person â chyfrifoldeb wedi ei enwi.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaid.

Mae'r rhieni yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn cyfrannu tuag at nifer o weithgareddau, gan gynnwys codi arian i wella'r ddarpariaeth addysgol. Mae'r bartneriaeth rhwng y rhieni a'r ysgol i hybu darllen yn y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen yn gryfder sydd wedi ei rannu gydag ysgolion eraill.

Mae ystod briodol o asiantaethau a sefydliadau allanol, fel gwasanaethau iechyd a chymdeithasol, busnesau lleol a sefydliadau cymunedol, yn cyfrannu eu harbenigedd yn dda i gefnogi gwaith yr ysgol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned leol. Cydweithiant yn effeithiol ar brosiectau penodol sy'n arwain at ystod eang o adnoddau i gyfoethogi profiadau dysgu. Mae cydweithio effeithiol iawn gyda mudiadau gwirfoddol. Enghraifft dda o hyn yw'r arddangosfa gelfyddydol a gynhelir gan y gymuned yn yr ysgol yn flynyddol. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd arbennig i ddisgyblion ddysgu am ddiwylliant lleol. Mae'r cysylltiadau buddiol gyda mudiadau megis yr Urdd yn cyfrannu'n dda i ehangu cyfraniad y disgyblion at y diwylliant Cymreig.

Mae cysylltiadau cryf gyda'r clwstwr o ysgolion lleol wedi cyfrannu yn dda at rannu profiadau a chynllunio wrth ymateb i newidiadau diweddaraf. Mae trefniadaeth briodol ar waith i safoni a chymedroli asesiadau athrawon diwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at adnabod safonau, sicrhau ansawdd a gwella deilliannau'r disgyblion.

Mae trefniadau trosglwyddo o'r meithrin i'r cynradd ac o'r cynradd i'r uwchradd yn effeithiol ac yn paratoi'r disgyblion ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon a chynorthwywyr i ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'n gwneud defnydd effeithiol ohonynt i sicrhau bod pob disgybl yn cael eu cynnwys yn llawn yng ngweithgareddau'r ysgol.

Mae athrawon yn gwneud defnydd addas o'u cyfnod cynllunio, paratoi ac asesu ar gyfer cynllunio a marcio gwaith. Maent yn cymryd rhan briodol yn y trefniadau rheoli perfformiad. Mae staff yr ysgol yn trafod a rhannu arfer broffesiynol gydag ysgolion eraill cyfagos ac yn manteisio ar hyfforddiant sy'n eu galluogi i weithredu'r strategaethau a nodir yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r staff wedi ymweld ag ysgolion lleol i arsylwi arfer dda, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar godi ansawdd y ddarpariaeth o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r corff llywodraethol yn gosod cyllideb yr ysgol yn ofalus ac yn cytuno ar flaenoriaethau ariannol. Gyda chefnogaeth swyddog cyllid yr awdurdod, mae'r llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn briodol ac yn cynllunio'n fwriadus i ymateb i unrhyw orwariant a sicrhau parhad yn ansawdd y ddarpariaeth.

O ystyried safonau da'r ysgol, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod gyda gofal oherwydd bod y niferoedd bychan o blant mewn blwyddyn ac anghysondeb y niferoedd hyn yn gallu effeithio'n sylweddol ar berfformiad ysgol o un flwyddyn i'r llall.

Yn 2013, cyrhaeddodd 100% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg ac mewn datblygiad mathemategol. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Roedd canlyniadau'r datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu Cymraeg yn is na chyfartaleddau'r teulu a Chymru.

Yn 2012, cyrhaeddodd 100% o ddisgyblion y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5 ymhob maes dysgu.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion sy'n cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 6, mewn iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Cymraeg, datblygiad mathemategol ac mewn datblygiad personol a chymdeithasol yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio di-dâl, perfformiodd yr ysgol yn y 25% isaf ar ddatblygiad ieithyddol Cymraeg ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad ieithyddol Saesneg a mathemategol yn 2013. Roedd yr ysgol yn y 25% uchaf ym mhob maes dysgu yn 2012.

O gymharu â'r canrannau cenedlaethol, mae'r bechgyn wedi perfformio cystal â'r merched ar y deilliant disgwyliedig dros ddwy flynedd mewn datblygiad mathemategol ond yn is yn y ddau faes arall. Mae'r bechgyn wedi perfformio'n well mewn datblygiad mathemategol a iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn 2012 ond yn is mewn datblygiad mathemategol yn 2013 ar y deilliant uwch (deilliant 6).

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd pob disgybl wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad (y dangosydd pwnc craidd) yn 2013. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg a Chymru. Roedd pob disgybl hefyd wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig, sef lefel 4 neu uwch, yn y pynciau craidd i gyd ar wahân i'r Gymraeg. Roedd y canran sydd wedi cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, yn agos at neu ychydig yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru mewn Cymraeg, Saesneg mathemateg a gwyddoniaeth.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio di-dâl, mae'r ysgol wedi perfformio yn y 25% uchaf mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ac yn y 50% is mewn Cymraeg yn 2013. Roedd yn y 25% uchaf ym mhob pwnc yn 2012.

Dros gyfnod o bum mlynedd, o gymharu â'r canrannau cenedlaethol yn gyffredinol, mae bechgyn wedi perfformio cystal neu'n well na'r merched ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch ym mhob maes ac eithrio 2010 ac yna mewn Cymraeg yn 2009 ar lefel 5 ac yn 2012 ar lefel 4.

## Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 27 | 25<br>93%<br>92% | 2<br>7%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 27 | 25<br>93%<br>97% | 2<br>7%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 27 | 27<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 27 | 27<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 26 | 26<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 26 | 25<br>96%<br>99% | 1<br>4%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 25 | 23<br>92%<br>98% | 2<br>8%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 27 | 26<br>96%<br>91% | 1<br>4%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 27 | 26<br>96%<br>95% | 1<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 27 | 21<br>78%<br>77% | 6<br>22%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 27 | 21<br>78%<br>84% | 6<br>22%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

# Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 37 | 28 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 37 | 34 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 37 | 28 | 9 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 76% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 37 | 26 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 70% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 37 | 25 | 9 | 0 | 0 | 3 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 68% | 24% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 36 | 26 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 37 | 23 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 62% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 37 | 13 | 15 | 7 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 35% | 41% | 19% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 37 | 27 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 37 | 22 | 14 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 59% | 38% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 37 | 31 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 33 | 20 | 7 | 0 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 61% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 37 | 22<br>59% | 12<br>32% | 3<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 36 | 24<br>67% | 12<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 37 | 16<br>43% | 14<br>38% | 2<br>5% | 0<br>0% | 5 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 37 | 20<br>54% | 16<br>43% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 30 | 10<br>33% | 9<br>30% | 0<br>0% | 0<br>0% | 11 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 36 | 22<br>61% | 12<br>33% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 37 | 24<br>65% | 9<br>24% | 2<br>5% | 0<br>0% | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Owen Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| William Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Gwyn Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.